Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Finance Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Alun Ffred Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

22 Ionawr 2015

Annwyl Alun Ffred

Craffodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar oblygiadau ariannol y Bil Cynllunio (Cymru) yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2014. Roedd sesiwn y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo costau a buddiannau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac ystyriaethau ariannol Llywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, y diwydiant datblygu a rhanddeiliaid eraill.

Cyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at y Pwyllgor yn amlinellu rhai anghysondebau yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn ar ddiwedd cyfnod dau. Gellir gweld copi o lythyr y Gweinidog ar wefan y Pwyllgor Cyllid[1].

Holodd y Pwyllgor y Gweinidog am ba mor hyderus ydoedd fod yr amcangyfrif yn y Memorandwm Esboniadol yn adlewyrchiad cywir o'r costau presennol a'r costau yn y dyfodol, yn hytrach na chostau hanesyddol ar gyfer y system gynllunio. Er y cafodd y ffigurau eu llunio gan ddefnyddio sampl cymharol fach o awdurdodau cynllunio lleol, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor eu bod yn cynrychioli'r mathau gwahanol o awdurdodau ledled Cymru, a bod yr amcangyfrifon mor gywir â phosibl o ystyried y wybodaeth sydd ar gael.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at gost amcangyfrifedig i economi y DU o rhwng £700 miliwn a £3 biliwn y flwyddyn oherwydd prosesau aneffeithlon ac oedi. Amlinellodd y Gweinidog i'r Pwyllgor ei bod yn amlwg y byddai ymdrin ag achosion o oedi yn y system gynllunio yn arwain at arbedion. Nododd y Pwyllgor fod y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn cwestiynu'r gost amcangyfrifedig i'r economi, ond ein bod yn croesawu'r bwriad o gael deddfwriaeth i gael gwared ag achosion o oedi o'r system a'r potensial am arbedion yn sgil hyn.

O ystyried y wybodaeth yn y Bil, ni all y Pwyllgor ddod i unrhyw gasgliadau pendant na llunio unrhyw argymhellion ar gostau ac arbedion y ddeddfwriaeth hon. Credwn mai'r wybodaeth ariannol yn y Bil yw'r amcangyfrif bras gorau ar gyfer y costau o ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r Gweinidog ar hyn o bryd. At hynny credwn, er

[1] Y Pwyllgor Cyllid, Papur 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

nad yw'r amcanestyniadau ar gyfer arbedion o reidrwydd mor gadarn â hynny, ei bod yn bosibl gwneud arbedion sylweddol drwy'r ddeddfwriaeth hon.

Nododd y Pwyllgor na chaiff y penderfyniad terfynol ynghylch llawer o'r costau ei wneud hyd nes bod yr is-ddeddfwriaeth wedi'i gwneud. I'r perwyl hwn, byddwn yn argymell i'r Pwyllgor Cyllid nesaf y dylai ailystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn mewn tua phum mlynedd i weld a oedd y costau a'r arbedion yn realistig.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**